Cyllid &
Thollau EM

12 Gorffennaf 2021

Annwyl [Gwsmer]

Rydym wedi bod yn ysgrifennu atoch yn rheolaidd i roi gwybod am y newidiadau o ran prynu nwyddau o, a gwerthu nwyddau i, wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd (yr UE). Y prif wahaniaethau ers i gyfnod pontio Brexit ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020 yw:

- bod datganiadau tollau'n orfodol erbyn hyn ar gyfer yr holl fewnforion ac allforion
- bod yn rhaid i chi dalu toll dramor, o bosibl
- byddwch yn parhau i dalu trethi eraill fel TAW mewnforio.

Rydym yn ymwybodol eich bod wedi mewnforio nwyddau o'r UE i Brydain Fawr yn y gorffennol. Yn ôl ein cofnodion, nid ydych wedi cyflwyno datganiadau tollau ar gyfer mewnforion rhwng mis Ionawr a mis Mai 2021 ac rydych yn gohirio'ch datganiadau o bosibl.

Rydym yn cydnabod bod ymgyfarwyddo â'r rheolau newydd rhwng y DU a'r UE dim ond yn un o blith nifer o faterion sy'n effeithio ar fusnesau ar hyn o bryd, a'i bod yn bosibl nad oeddech yn arfer masnachu'n rhyngwladol. Mae'ch busnes yn gwneud cyfraniad pwysig at economi'r DU ac rydym am eich helpu i gael pethau'n iawn fel y gallwch barhau i fasnachu.

Mae'r llythyr hwn yn cyfeirio at yr holl help a chymorth sydd ar gael i chi. Mae hefyd yn eich atgoffa o sut i wneud datganiadau tollau ar gyfer mewnforion ac rydym yn rhannu amserlen i'ch helpu i baratoi ar gyfer rheolaethau tollau llawn o 1 Ionawr 2022 ymlaen.

## Ble i ddod o hyd i help a chymorth

Rydym yn gwybod ei bod yn cymryd amser i fusnesau yn y DU ddod i'r arfer â'r newidiadau yn sgil gadael yr UE. Os oes angen help arnoch, defnyddiwch y cymorth sydd ar gael gennym. Byddwn yn parhau i roi arweiniad a chymorth i'ch helpu chi a'ch busnes. I gael rhagor o fanylion am y cymorth sydd ar gael ar-lein, gan gynnwys ein gweminarau byw a'n fideos YouTube, ewch i www.gov.uk/guidance/help-and-support-for-uk-transition

Mae ein hymgynghorwyr gwasanaeth i gwsmeriaid hefyd ar gael i ateb eich cwestiynau ar y llinell gymorth Tollau a Masnach Ryngwladol. Byddant yn eich helpu ynghylch mewnforio, allforio a rhyddhad tollau. Mae'r llinell gymorth ar gael rhwng 8am a 10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8am a 4pm ar y penwythnos. Ffoniwch i siarad ag ymgynghorydd ar 0300 322 9434.

### Datganiadau Tollau ar gyfer allforion a mewnforion – nodyn i'ch atgoffa o'r hyn y mae angen i chi ei wneud

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio cyfryngwr fel asiant tollau i ddelio â'u datganiadau. Os oes gennych gyfryngwr, neu os gwnaethoch ddefnyddio gwasanaeth fel cludwr neu drefnydd anfon nwyddau i symud eich nwyddau, dylech fod wedi cytuno ag ef pwy fydd yn gwneud y datganiad.

**Os ydych yn Allforiwr**, mae angen i chi ddilyn yr un broses ar gyfer allforio unrhyw nwyddau i'r UE ag yr ydych yn ei dilyn ar gyfer allforio i weddill y byd. Mae hyn yn cynnwys gwneud datganiadau allforio wrth i chi allforio'ch nwyddau. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn www.gov.uk/export-goods

**Os ydych yn Fewnforiwr nwyddau o dan reolaeth** fel alcohol neu dybaco, mae angen i chi ddilyn yr un broses sydd ar waith ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn o weddill y byd, a gwneud datganiad mewnforio llawn ar unwaith pan fyddwch yn mewnforio'ch nwyddau. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i www.gov.uk/import-goods-into-uk

Os nad ydych yn siŵr a yw'ch nwyddau'n cael eu hystyried yn rhai 'o dan reolaeth', gallwch ddod o hyd i'r ateb yn www.gov.uk/hmrc/controlled-goods-gb

**Os ydych yn Fewnforiwr nwyddau nad ydynt o dan reolaeth**, mae dau ddewis gennych o ran nwyddau y dewch â nhw i mewn i Brydain Fawr o'r UE yn ystod 2021. Gallwch naill ai wneud datganiad tollau llawn wrth i'r nwyddau gyrraedd Prydain Fawr neu ohirio'ch datganiadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/hmrc/delay-declaring-eu-goods

Os dewisoch ohirio, byddwch chi neu bydd yr arbenigwr tollau a huriwyd gennych i weithredu ar eich rhan (fel asiant tollau neu drefnydd anfon nwyddau) wedi cadw cofnodion manwl (**a elwir yn Gofnod yng Nghofnodion y Datganwr**) wrth i chi fewnforio nwyddau, a bydd angen i chi (neu'r arbenigwr tollau) hefyd wneud datganiad atodol cyn pen 175 diwrnod i'r dyddiad y cyrhaeddodd eich nwyddau Brydain Fawr.

Os ydych wedi penderfynu gohirio'ch datganiadau, mae'n bwysig eich bod yn:

- Cadw cofnod cywir o'r hyn rydych yn ei fewnforio yn www.gov.uk/hmrc/self-declare-eu-goods bob tro mae'ch nwyddau'n cyrraedd Prydain Fawr, gan gynnwys y dyddiad ac amser mewnforio, disgrifiad ysgrifenedig o'r nwyddau a'r cod nwyddau cysylltiedig. **Gelwir hyn yn Gofnod yng Nghofnodion y Datganwr** ac mae'n ofyniad cyfreithiol. Bydd hefyd angen yr wybodaeth hon arnoch i wneud eich datganiad atodol, ewch i www.gov.uk/hmrc/self-declare-eu-goods i gael rhagor o wybodaeth.
- Anfon eich datganiad atodol i CThEM cyn pen 175 diwrnod i'r dyddiad y gwnaeth eich nwyddau gyrraedd Prydain Fawr. Er enghraifft, os gwnaethoch fewnforio nwyddau ar 1 Chwefror 2021, bydd yn rhaid i chi fod wedi cyflwyno'ch datganiad atodol erbyn 26 Gorffennaf 2021. Os gwnaethoch fewnforio unrhyw beth ym mis Ionawr ac nad ydych wedi gwneud eich datganiad gohiriedig eto, ewch i www.gov.uk/hmrc/prepare-supplementary-declaration i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae angen i chi ei wneud.
- Os ydych yn fewnforiwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, a'ch bod yn gohirio'ch datganiadau neu'n defnyddio datganiad tollau symlach i wneud datganiad yn eich cofnodion eich hun, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r dull Cyfrifyddu TAW Gohiriedig (PVA) www.gov.uk/hmrc/account-for-import-vat Os byddwch yn gohirio'ch datganiad, bydd angen i chi amcangyfrif swm y TAW mewnforio i roi cyfrif amdani ar y Ffurflen TAW, sy'n cwmpasu'r dyddiad y gwnaethoch fewnforio'r nwyddau. Ar ôl i chi wneud eich datganiad gohiriedig, gallwch addasu'r amcangyfrif ar eich Ffurflen TAW nesaf. Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, mae'n rhaid i chi dalu'r TAW mewnforio ar eich cyfrif gohirio tollau wrth i chi wneud eich datganiad atodol. Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud hyn ar gael yn www.gov.uk/hmrc/delayed-declaration-import-vat

Os canfyddir eich bod heb gydymffurfio, a hynny'n fwriadol, gallech golli'r opsiwn o ohirio datganiadau yn y dyfodol a bydd yn rhaid i chi ddatgan nwyddau wrth i chi eu mewnforio. Gallwn hefyd gymryd camau a all gynnwys cosbau ariannol. Rydym yn gwybod bod llawer o newidiadau i'w hystyried, felly ffoniwch ni os ydych yn meddwl na fyddwch yn gallu gwneud datganiadau tollau mewn pryd.

## Os yw'ch busnes yn symud nwyddau i mewn i Ogledd Iwerddon, allan o'r wlad honno neu drwy'r wlad honno

Dylech ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr sy'n rhad ac am ddim i'ch helpu i symud eich nwyddau. Mae'n gallu llenwi datganiadau tollau a datganiadau diogelwch ar eich rhan pan fo angen y rhain ar gyfer symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, fel nad oes rhaid i chi gael mynediad at systemau CThEM yn uniongyrchol. Cewch ragor o wybodaeth a chofrestru yn www.gov.uk/guidance/trader-support-service

Gallwch hefyd ddefnyddio ein hofferyn ar-lein newydd yn www.gov.uk/check-tariff-goods-ni-from-gb i wirio a oes angen i chi dalu tariff ar nwyddau sy'n cael eu cludo i mewn i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr.


## Y camau nesaf

Rydym yn gobeithio bod y llythyr hwn wedi bod o gymorth i chi. Rydym yn gwybod pa mor heriol yw dod i arfer â chymaint o newidiadau, ac rydym yn gwerthfawrogi faint rydych wedi'i wneud eisoes.

Rydym yma i'ch helpu i addasu i'r newidiadau, a byddwn yn ysgrifennu atoch eto yn yr hydref i'ch helpu i baratoi ar gyfer y newidiadau a amlinellir yn yr amserlen sydd wedi'i chynnwys gyda'r llythyr hwn.

Yn y cyfamser, cofiwch droi at yr help a'r cymorth sydd ar gael i chi gan gynnwys defnyddio ein llinell gymorth Tollau a Masnach Ryngwladol ar 0300 322 9434 a chofrestru i gael ein negeseuon e-byst wythnosol i fasnachwyr yn www.gov.uk/government/collections/hmrc-webinars-email-alerts-and-videos

Yn gywir



Katherine Green a Sophie Dean

Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Ffiniau a Masnachu, CThEM